

## Adroddiad Arolygu Ysbyty (Dirybudd)

Uned Famolaeth, Ysbyty Athrofaol y  
Faenor, Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Aneurin Bevan

Dyddiad yr arolygiad: 6 - 8 Mehefin 2023

Dyddiad cyhoeddi: 14 Medi 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [AGIC@llyw.cymru](mailto:AGIC@llyw.cymru)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

ISBN Digidol 978-1-83504-625-8

© Hawlfraint y Goron 2023

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddi-dduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom .....	5
2. Crynodeb o'r arolygiad .....	6
3. Yr hyn a nodwyd gennym .....	9
• Ansawdd Profiad y Claf .....	9
• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol .....	15
• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .....	20
4. Y camau nesaf .....	25
Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad .....	26
Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith .....	27
Atodiad C - Cynllun gwella .....	37

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd yn Ysbyty Athrofaol y Faenor, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan rhwng 6 a 8 Mehefin 2023. Adolygydd y wardiau ysbyty canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Y Ward Gynenedigol - 8 gwely
- Y Ward Esgor - 17 o welyau (gan gynnwys 5 gwely Dibyniaeth Uchel)
- Y Ward Ôl-enedigol - 16 o welyau
- Yr Uned Gyfochrog dan Arweiniad Bydwagedd (Canolfan Eni) - 6 gwely
- Y Ward Ysgogi'r Cyfnod Esgor - 8 gwely
- Y Ward Ôl-lawdriniaethol - 8 gwely

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un Uwch-arolygydd Gofal Iechyd AGIC, un Arolygydd Gofal Iechyd AGIC, Pennaeth Ansawdd a Chyngor Clinigol Aciwt AGIC, tri adolygydd cymheiriaid clinigol (dwy fydwraig ac un obstetregydd) ac un adolygydd profiad y claf. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn i ni ar weithio i'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 48 o holiaduron gan gleifion neu eu gofalwyr a chwblhawyd 65 gan y staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#)

## 2. Crynodeb o'r arolygiad

### Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelwyd y staff yn darparu gofal parchus a charedig i'r menywod a'u teuluoedd. Gwelsom fod pob aelod o'r staff ar bob lefel yn gweithio'n dda fel tîm i roi profiad cadarnhaol i'r cleifion a oedd wedi'i deilwra atynt ac yn canolbwyntio ar eu hanghenion. Roedd bron pob un o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw wedi canmol y gofal a ddarparwyd iddynt, y staff ac amgylchedd yr uned famolaeth. Gwelsom y staff yn darparu gofal a oedd yn canolbwyntio ar yr unigolyn er bod peth pwysau staffio yn yr adran.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Adolygu ac ystyried cynyddu nifer y pyllau geni sydd ar gael yn yr uned
- Adolygu'r trefniadau ymweld a chyfleu'r amseroedd yn effeithiol i'r teuluoedd cyn iddynt gael eu derbyn i'r uned
- Adolygu ac ystyried cynyddu nifer y gwelyau ôl-enedigol er mwyn gwella llif cleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan ystyried anghenion unigol
- Ystafelloedd en-suite unigol, golau a mawr a chyfleusterau modern
- Roedd gwybodaeth am feichiogrwydd ar gael mewn sawl iaith ar wefan Iachach Gyda'n Gilydd
- Roedd cynrychiolaeth gan gleifion drwy'r grŵp *Bump and Birth Improvement* (BABI) yn cael ei defnyddio i ysgogi gwelliannau mewn gwasanaethau mamolaeth.

### Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod trefniadau ar waith i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion. Gwelwyd rhai elfennau o arfer da. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nifer bach o broblemau mewn perthynas â'r broses o wirio cyfarpar ac atal a rheoli heintiau lle y mae AGIC yn galw am sicrwydd ar unwaith gan y BIP ynghylch y camau gweithredu a gymerir i fynd i'r afael â'r rhain.

Achosion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Gwelsom fod rhai o'r dodrefn, y gosodiadau a'r ffitiadau mewn dwy ystafell ar gyfer rhoi gofal a thriniaeth yn amlwg yn fudr gyda gwaed a hylifau'r corff

- Nid oedd y gwiriadau dyddiol o un o'r dadebrwyr hanfodol bob amser yn cael eu cofnodi
- Nid oedd llofnod ar gael bob amser i ddangos bod y gwiriadau dyddiol o dymheredd un o'r oergelloedd meddyginiaeth wedi cael eu cynnal
- Trefniadau annigonol ar gyfer rheoli a diogelu rhai darnau o wybodaeth gyfrinachol am gleifion.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau y caiff pob drws tân sy'n arwain at gypyrddau glanhau eu cau
- Adolygu'r broses o gynllunio olyniaeth a chapasiti ar gyfer pob un o rolau'r bydwragedd arbenigol
- Sicrhau bod cyfarpar meddygol hanfodol ar gael yn hawdd i'r staff
- Cynnal archwiliadau rheolaidd o ddogfennau a dysgu gwersi dilynol mewn perthynas â chofnodion y cleifion

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Mentrau arloesol i nodi risgiau
- Llwybrau gofal clir ac effeithiol ar gyfer menywod a babanod.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd strwythur rheoli ar waith a disgrifiwyd llinellau adrodd ac atebolrwydd clir. Roedd y rheolwyr i'w gweld ym mhob ardal o'r uned ac roedd sylwadau gan y staff yn nodi eu bod yn hawdd mynd atynt a'u bod yn barod i dderbyn adborth. Dywedodd pob aelod o'r staff fod diwylliant cefnogol a chadarnhaol ar waith. Gwelsom dimau cyfeillgar, caredig, hawdd mynd atynt a oedd yn gweithredu'n dda ac yn cydweithio'n dda ym mhob rhan o'r adran. Gwelwyd rhai heriau mewn perthynas â recriwtio a chadw staff. Gwnaethom nodi hefyd fod lefelau cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol yn wael mewn rhai meysydd.

Achosion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Roedd lefelau cydymffurfiaeth isel â hyfforddiant gorfodol mewn rhai meysydd, yn cynnwys sgiliau clinigol allweddol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Recriwtio a chadw staff er mwyn llenwi'r swyddi gwag ar bob lefel
- Gwella mynediad y staff at ardaloedd lle y gallant gael seibiant o'r ardal glinigol
- Gwella'r system ar gyfer olrhain hyfforddiant y staff.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Cyfleu sylwadau'r cleifion i'r staff yn rheolaidd
- Cynnwys y staff yn y gwersi i'w dysgu a'r arferion da a nodir wrth ymchwilio i ddiwyddiadau
- Mae cyfleoedd datblygu ar gael i bob aelod o'r staff ar bob lefel.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).



## 3. Yr hyn a nodwyd gennym

### Ansawdd Profiad y Claf

#### Adborth gan Gleifion

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ddefnyddio holiaduron papur ac ar-lein i gasglu barn ac adborth gan gleifion a gofawyr. Cwblhawyd cyfanswm o 48 o holiaduron. Mamau oedd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd yr holiadur, gyda'r mwyafrif o'r ymatebwyr wedi cael profiad o wasanaethau mamolaeth o fewn y flwyddyn ddiwethaf (39/48) ac wedi cael gofal a arweinir gan feddyg ymgynghorol (36/48). Roedd yr ymatebwyr eraill wedi cael gofal a arweinir gan fydwragedd.

Ar y cyfan, nododd y mwyafrif o'r ymatebwyr eu bod wedi cael profiad cadarnhaol (42/48), gan rannu sylwadau megis y canlynol:

*“Roedd y gofal a'r cymorth a gefais gan bob aelod o'r staff yn arbennig, ac roedd fy mhrofiad geni yn un cadarnhaol diolch i hyn”*

*“Gwell na'r disgwyl - gwnaethant ragori ar unrhyw ddisgwyliadau. Arbennig iawn!”*

*“Roedd y gofal yn broffesiynol iawn ac yn sylwgar. Gwnaeth y staff ar bob lefel argraff arnaf”*

*“Gwasanaeth ardderchog - roeddwn i'n ofni dod i mewn ar ôl darllen yr adolygiadau ar-lein, ond byddaf yn rhannu profiad cadarnhaol!”*

Gwnaethom ofyn beth y gellid ei wneud i wella'r gwasanaeth. Roedd y sylwadau yn cynnwys y canlynol:

*“Ddim yn siŵr os gellid gwella unrhyw beth”*

*“Peidio â gorfod gadael mor fuan ar ôl i'r babi gael ei eni”*

*“Roeddwn i'n teimlo bod yr amseroedd ymweld yn gyfyngedig iawn ac ar brydiau, gwnaethant i mi deimlo'n eithaf unig.”*

Cafwyd ymateb cymysg o ran p'un a oedd oriau ymweld yr ysbyty yn ddigonol ai peidio, gyda dros hanner yr ymatebwyr yn unig yn cytuno bod eu partneriaid, neu rywun sy'n agos atynt, wedi gallu aros gyda nhw gyhyd ag yr oeddent eisiau (26/43).

**Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r trefniadau ymweld a chyfleu'r amseroedd i'r teuluoedd cyn iddynt gael eu derbyn i'r uned.**

Gwelsom mai dim ond un pwll geni oedd ar gael ar gyfer yr uned gyfan. Roedd hwn ar gael yn y Ganolfan Eni. Roedd y bobl a oedd yn defnyddio'r uned yn ymwybodol o fanteision y pwll geni o ran lleddfu poen a nododd rhai eu bod wedi siomi am nad oedd un ar gael iddynt ei ddefnyddio yn ystod eu cyfnod esgor.

**Dylai'r bwrdd iechyd adolygu ac ystyried cynyddu nifer y pyllau geni sydd ar gael yn yr uned.**

## **Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn**

### **Hybu Iechyd**

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom gyfarfod â'r fydwraig a oedd yn arbenigo mewn Iechyd y Cyhoedd. Gwnaethom adolygu'r wefan "Iachach Gyda'n Gilydd", a oedd yn cynnwys gwybodaeth, cyngor ac arweiniad hybu iechyd cynhwysfawr ar gyfer pob cam yn ystod beichiogrwydd yn ogystal â chynllunio beichiogrwydd. Roedd arweiniad a gwybodaeth am smygu, alcohol, pwysau, gweithgarwch corfforol, bwydo ar y fron a negeseuon hybu iechyd eraill ar gael mewn sawl iaith ar y wefan. Roedd dolen i'r wefan yn cael ei rhoi i bob un o'r cleifion yn y clinig cynenedigol. Dywedwyd wrthym fod copïau papur o'r wybodaeth hybu iechyd ar gael ar gais. Mae'r ffaith bod y wybodaeth hybu iechyd gynhwysfawr ddiweddaraf ar gael yn golygu y gall teuluoedd gael gafael ar wybodaeth i wneud newidiadau iach neu gael cymorth amserol i gynyddu'r tebygolrwydd o feichiogrwydd iach a babi iach.

Dywedwyd wrthym fod tri chynghorwr mamolaeth wedi'u hyfforddi mewn rhoi'r gorau i smygu i gefnogi pobl i roi'r gorau iddi yn ystod beichiogrwydd.

Cadarnhaodd y rhan fwyaf o ymatebwyr yr holiadur cleifion fod y wybodaeth a ddarparwyd iddynt yn ystod beichiogrwydd, gan gynnwys lle i fynd mewn argyfwng (44/47) a'r hyn a fyddai'n digwydd yn ystod yr enedigaeth (38/47) yn ddigonol.

**Nodwyd bod y wybodaeth ar wefan Iachach Gyda'n Gilydd yn arfer da.**

### **Gofal urddasol a pharchus**

Drwy gydol yr arolygiad, gwelwyd y staff yn trin pobl â charedigrwydd a pharch, gan gyfathrebu â nhw mewn ffordd gyfeillgar a phroffesiynol.

Roedd cynllun y wardiau a'r ysbyty yn golygu bod pob un o'r cleifion mewnol yn cael eu trin yn yr ystafelloedd ochr gyda chyfleusterau en-suite. Roedd hyn yn sicrhau bod eu preifatrwydd a'u hurddas yn cael eu cynnal. Gwelsom fod

cyfleusterau newid addas ar gyfer partneriaid er mwyn iddynt newid i gyfarpar diogelu personol priodol wrth fynychu genedigaeth toriad cesaraidd.

Roedd bron pob un o ymatebwyr yr holiadur yn teimlo bod y staff yn eu trin ag urddas a pharch (45/48) a bod y staff wedi egluro'r opsiynau ar gyfer rhoi genedigaeth, unrhyw risgiau a oedd yn gysylltiedig â'r beichiogrwydd ac unrhyw opsiynau perthnasol o ran cymorth (44/48). Roedd y sylwadau yn cynnwys y canlynol:

*“Ni wynebais unrhyw gymhlethdodau yn ystod cyfnod cynnar fy meichiogrwydd ond wynebais sawl cymhlethdod tuag at ddiwedd fy meichiogrwydd. Ni allwn fod wedi cael gwell gofal a chymorth. Gofalodd pob aelod o staff am fy nheulu a minnau gyda thosturi, medrusrwydd a chyfeillgarwch. Gwnes i sawl penderfyniad anodd a wynebu sawl problem iechyd gymhleth, ond cefais brofiad cadarnhaol oherwydd y cymorth a gefais.”*

Roedd gan y staff y gwnaethom siarad â nhw ymwybyddiaeth dda o'u cyfrifoldebau i ddiogelu a hyrwyddo hawliau'r cleifion pan fyddent yn mynychu'r uned. Roedd pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur yn cytuno bod preifatrwydd ac urddas y cleifion yn cael eu cynnal ac roedd bron pob un yn credu bod y cleifion yn cael gwybodaeth am benderfyniadau ynghylch eu gofal a'u cynnwys yn y penderfyniadau hyn. Roedd pob un yn fodlon ar ansawdd y gofal a'r cymorth y maent yn ei roi i gleifion.

Gwnaethom gyfarfod â'r fydwraig arbenigol ar gyfer profedigaethau a oedd i'w gweld yn ymroddedig ac yn frwdfrydig, a gwnaethom nodi fod ystafell brofedigaeth ddynodedig ar gael i deuluoedd. Cafodd staff ar yr uned hyfforddiant ar brofedigaeth er mwyn sicrhau bod cymorth ar gael ar gyfer teuluoedd a oedd wedi cael profedigaeth. Gwnaethom nodi nad oedd arweinydd meddygol ar gyfer profedigaethau ar hyn o bryd.

**Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r gwasanaethau profedigaeth i feincnodi ei wasanaethau yn erbyn unedau mamolaeth tebyg. Dylid adolygu'r galluedd er mwyn sicrhau bod y fydwraig arbenigol yn cael ei chefnogi'n ddigonol a bod menywod sy'n wynebu profedigaeth yn cael gofal arbenigol a theg dan arweiniad meddyg ymgynghorol.**

#### **Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn**

Dywedodd y cleifion wrthym am y rhyngweithio cefnogol a chadarnhaol rhyngddynt a'r staff yn ystod eu cyfnod yn yr uned.

Roedd staff yr uned yn cyfarfod ddwywaith y dydd, ar adegau newid sifft. Gwnaethom fynychu dau gyfarfod trosglwyddo a gwelsom gyfathrebu effeithiol wrth drafod anghenion a chynlluniau'r cleifion gyda'r bwriad o gynnal parhad gofal.

Roedd y cyfarfodydd hyn wedi'u strwythuro'n dda ac yn seiliedig ar dystiolaeth. Roedd yn amlwg o'r broses drosglwyddo a'r bwrdd cyfathrebu o fewn y maes trosglwyddo bod anghenion unigol yn cael eu trafod a'u rhannu.

Roedd sawl bydwraig arbenigol yn ei swyddi i gefnogi teuluoedd a oedd angen cymorth ychwanegol neu arbenigol. Gwnaethom siarad â'r fydwraig iechyd meddwl a oedd hefyd yn rhoi cymorth i fenywod sy'n camddefnyddio sylweddau. Gwelsom fod llwybrau gofal unigol a llwybrau gofal ychwanegol ac eiriolaeth i fenywod ag anawsterau yn y meysydd hyn a meysydd eraill.

## Amserol

### Gofal amserol

Dywedodd y cleifion wrthym fod y staff yn barod iawn eu cymwynas ac y byddent yn diwallu eu hanghenion mewn modd amserol. Dywedodd y staff wrthym y byddent yn gwneud eu gorau i sicrhau bod holl anghenion y cleifion yn cael eu diwallu ac roedd cofnodion y cleifion yn dangos bod hyn yn digwydd.

Roedd ymatebwyr yr holiadur cleifion yn teimlo eu bod yn gallu cael y gofal iechyd cywir ar yr adeg gywir (44/48).

Er bod y cleifion a'r teuluoedd yn teimlo eu bod yn gallu cael gafael ar gymorth yn amserol yn ystod beichiogrwydd a'r cyfnod esgor, cafwyd adborth cymysg ar ofal ôl-enedigol. Cafwyd rhai sylwadau negyddol am ofal ôl-enedigol.

*“Yn ystod fy nghyfnod esgor, roedd y gofal a gefais yn ddi-fai, ond nid oedd yr ôl-ofal a gefais cystal. Nid oeddwn yn teimlo fy mod wedi cael cefnogaeth gyda bwydo ar y fron, a chefais enedigaeth drawmatig iawn ac ni chefais wybod yn iawn beth ddigwyddodd.”*

Dywedodd sawl aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad wrthym am yr heriau o ran capasiti ar gyfer cleifion ôl-enedigol. Roedd yr 16 o welyau ôl-enedigol yn aml yn llawn a dywedwyd wrthym fod hyn yn effeithio ar lif cleifion ym mhob rhan arall o'r uned. Weithiau, roedd hyn yn achosi oedi wrth ddarparu gofal. Roedd y sylwadau a gafwyd yn yr arolwg staff yn adlewyrchu'r heriau hyn:

*“Rwy'n teimlo bod problem gyda chapasiti gwelyau bob amser a phwysau i ryddhau menywod o'r ysbyty yn gyflym ond, yn enwedig ar y penwythnos, mae bob amser yn anodd cael staff meddygol i ddod i'r ward i weld menywod ac ysgrifennu presgripsiynau”*

Roedd yr uwch-reolwyr y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'r heriau hyn ac yn adolygu opsiynau i'w gwella.

**Dylai'r bwrdd iechyd adolygu niferoedd y gwelyau ôl-enedigol a lliniaru unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â phrinder gwelyau er mwyn sicrhau y caiff gofal cleifion diogel ac effeithiol ei gynnal.**

## **Teg**

### **Cyfathrebu ac iaith**

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym y byddai trefniadau ychwanegol yn cael eu gwneud pe bai gan gleifion unrhyw ofynion cyfathrebu. Cadarnhaodd y staff bod gwasanaethau cyfieithu ar gael i helpu â chyfathrebu pe byddai eu hangen.

Roedd y naw set o gofnodion cleifion a adolygwyd gennym yn nodi bod penderfyniadau yn cael eu gwneud yr y cyd yn briodol, bod gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn yn cael ei ddarparu a bod dymuniadau rhoi genedigaeth a dewis iaith unigolion yn cael eu bodloni.

Gwelsom enghreifftiau o'r staff yn sicrhau bod y menywod, nad Saesneg oedd eu hiaith gyntaf, yn cael eu cefnogi i sicrhau eu bod yn deall eu cynllun gofal. Gwnaethom nodi fod y tîm o staff yn yr Adran Famolaeth yn amrywiol ac yn siarad sawl iaith wahanol ac, ar adegau, roeddent yn cyfathrebu â rhai cleifion mewn ieithoedd gwahanol er mwyn sicrhau eu bod yn deall ac i fodloni eu dewis iaith. Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw yn yr uned eu bod yn teimlo bod unigolion yn gwrando arnynt a dywedodd pob un a atebodd yr arolwg eu bod yn teimlo bod y staff yn gwrando arnynt hefyd.

Roedd gwybodaeth ar gael mewn sawl iaith wahanol ar wefan Iachach Gyda'n Gilydd. Gwelsom fod nifer bach o'r staff yn gwisgo bathodyn Cymraeg i ddangos eu bod yn gallu siarad Cymraeg.

Gwnaethom nodi bod arwyddion dwyieithog clir yn y maes parcio a'r holl ffordd drwy'r ysbyty tuag at yr Adran Famolaeth.

Ni wnaethom weld gwybodaeth a oedd yn nodi'r staff a oedd ar y shifft ar gyfer cleifion ac ymwelwyr. Gwnaeth rhai o'r cleifion sylwadau am hyn a dywedwyd wrthym nad oedd y wybodaeth "fy nyrs heddiw" yn cael ei diweddarau'n rheolaidd.

**Dylai'r bwrdd iechyd roi system ar waith er mwyn sicrhau bod cleifion yn ymwybodol o bwy yw'r staff sydd ar y shifft a'r tîm arwain yn yr adran.**

## **Hawliau a Chydraddoldeb**

Dywedodd pob un o'r cleifion nad oeddent wedi profi gwahaniaethu wrth gael gafael ar y gwasanaeth iechyd hwn neu ei ddefnyddio yn sgil unrhyw nodweddion gwarchoddedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb (2010)

Cafwyd y sylw canlynol gan un person:

*“Roedd pob agwedd ar y gofal yn cael ei darparu mewn ffordd onest, agored ac anfeirniadol a oedd wedi'i theilwra at yr unigolyn.”*

Roedd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'r Ddeddf Cydraddoldeb (2010) a darparwyd enghreifftiau lle roedd addasiadau rhesymol ar waith, neu'n cael eu gwneud, fel bod pawb, gan gynnwys unigolion â nodweddion gwarchoddedig, yn gallu defnyddio'r gwasanaeth.

Gwnaethom gyfarfod â thîm o staff amrywiol a nodwyd gennym fod hyfforddiant ar amrywiaeth a chydraddoldeb yn hanfodol ar gyfer pob aelod o'r staff.

Gwnaethom nodi fod cynrychiolaeth dda o grwpiau amrywiol yn y grŵp profiad y claf, sef y grŵp BABI, er mwyn sicrhau y gall profiadau pob claf lywio'r gofal.

**Nodwyd bod grŵp profiad y claf BABI a'r aelodaeth amrywiol yn arfer da.**

Roedd ystafelloedd ac ystafelloedd ymolchi hygyrch a choridorau llydan yn yr ysbyty newydd er mwyn sicrhau y gall pawb eu cyrraedd yn rhwydd.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Diogel

### Rheoli risg

Gwnaethom adolygu'r prosesau sydd ar waith i reoli ac adolygu risgiau a chynnal iechyd a diogelwch yn yr adran. Gwnaethom nodi arfer da mewn perthynas â'r defnydd o rwymyn braich ar gyfer menywod yr oedd y broses ysgogi'r cyfnod esgor wedi dechrau drwy gael Propess. Roedd hyn yn golygu bod modd adnabod y menywod hyn yn rhwydd a bod y risgiau a oedd yn gysylltiedig â'r pesari yn gyfyngedig.

Roedd pob rhan o'r uned wedi'i goleuo, yn cynnwys digon o gyfarpar ac yn cael ei hawyru'n dda gyda choridorau llydan. Roedd y rhan fwyaf o'r ardaloedd yn daclus ac yn drefnus.

**Gwnaethom nodi nad oedd rhai o ddrysau tân y cypyrddau glanhau yn cael eu cau yn rheolaidd ac y dylid mynd i'r afael â'r mater.**

### Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod y rhan fwyaf o ardaloedd yr uned yn lân ac yn daclus. Fodd bynnag, wrth i ni gyrraedd dwy ystafell eni wag, gwelsom fod staeniau gwaed ar rai o'r dodrefn, y gosodiadau a'r ffitiadau. Roedd y labeli â dyddiadau arnynt yn nodi bod yr ystafelloedd hyn wedi cael eu glanhau, ond gwnaethom nodi nad oedd y broses lanhau yn ddigonol o gofio am y gwaed amlwg a welsom.

Ni chafodd AGIC sicrwydd fod prosesau effeithiol ar waith nac yn cael eu dilyn i atal heintiau a ddelir wrth gael gofal iechyd. Aeth y staff i'r afael â'r materion hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Gwnaethom adolygu'r dystiolaeth a oedd yn gysylltiedig ag archwiliadau glanhau'r adran ac roedd yn nodi lefel uchel o gydymffurfiaeth a chyfraddau llwyddo a methu manwl yn ogystal â nodi cyfrifoldeb am fethiannau.

**Ymdriniwyd â'r materion hylendid hyn o dan broses sicrwydd ar unwaith AGIC a chyfeirir atynt yn [Atodiad B](#) o'r adroddiad hwn**

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod pob aelod o'r staff yn cydymffurfio â'r safonau o ran bod yn Noeth o dan y Penelin a gwelsom fod technegau hylendid dwylo da ar waith. Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo ar gael, ynghyd â phosteri a oedd yn dangos y gweithdrefnau golchi dwylo cywir i'w dilyn er mwyn i'r staff allu edrych arnynt i'w hatgoffa. Roedd hylif diheintio dwylo ar gael ym mhob rhan o'r uned.

Gwnaethom adolygu'r ddogfennaeth archwilio hylendid dwylo a oedd yn nodi lefel cydymffurfiaeth dda.

### **Diogelu plant ac oedolion**

Cadarnhaodd y bwrdd iechyd fod polisiau a gweithdrefnau ar waith i hyrwyddo lles plant ac oedolion a all fod yn wynebu risg. Gwnaethom gyfarfod â'r fydwraig ddiogelu arbenigol a gadarnhaodd bod trefniadau priodol ar waith i ddiogelu plant ac oedolion a oedd yn defnyddio'r gwasanaethau mamolaeth. Roedd hyn yn cynnwys hyfforddiant gorfodol ar gyfer pob aelod o'r staff, ac roedd y gyfradd gydymffurfiaeth yn 72% yn ystod yr arolygiad.

Gwnaethom nodi fod rôl y fydwraig diogelu arbenigol yn weithredol ym mhob rhan o'r bwrdd iechyd ac mae'r adnoddau sydd ar gael i ddarparu staff cyflenwi yn ystod gwyliau blynyddol ac absenoldebau yn gyfyngedig.

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod mesurau diogelwch cynhwysfawr ar waith ym mhob rhan o'r uned er mwyn sicrhau bod teuluoedd a babanod yn ddiogel. Roedd mynediad i bob ardal wedi'i gyfyngu gan ddrwsau wedi'u cloi, na ellid eu hagog heb bws staff neu heb i aelod o'r staff gymeradwyo mynediad drwy'r system intercom. Gofynnwyd i'r tîm arolygu wisgo bathodynau'r bwrdd iechyd fel bod pawb yn adnabod yr unigolion a bu'n rhaid iddynt eu dangos sawl gwaith.

Gwnaethom adolygu'r dystiolaeth o ymarfer herwgydio babanod a oedd wedi cael ei gynnal yn gynharach eleni. Roedd tystiolaeth o'r adborth a roddwyd i'r staff ac awdurdodau perthnasol eraill a'r gwersi a ddysgwyd iddynt er mwyn sicrhau diogelwch parhaus y babanod yn yr adran.

**Dylai'r bwrdd iechyd adolygu capasiti'r fydwraig ddiogelu a'r tîm diogelu ehangach er mwyn sicrhau bod digon o gapasiti ar gael yn ystod cyfnodau o wyliau blynyddol neu absenoldebau ac er mwyn gallu cynllunio'n effeithiol.**

### **Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol**

Roedd canlyniadau'r arolwg staff yn dangos fod oddeutu hanner y staff yn anghytuno bod cyfarpar meddygol priodol ar gael iddynt i'w galluogi i ddarparu gofal effeithiol. Roedd hyn yn peri risg pe na ellid cynnal arsylwadau prydlon mewn modd amserol. Gwnaeth un aelod o'r staff y sylw canlynol yn yr holiadur:

*“Mae angen cyfarpar sylfaenol fel cyffiau pwysedd gwaed (bach a mawr), thermomedrau, a thermomedrau/stethosgopau ar gyfer babanod arnom ym mhob ystafell esgor”*



*“Nid oes gennym yn aml ddigon o gyfarpar ar gyfer cynnal archwiliadau sylfaenol ac nid yw'r peiriannau monitro stan yn gweithio ac ati.”*

Gwnaethom edrych ar gofnodion cleifion a oedd yn nodi nad oedd y broses o fonitro CO2 yn cael ei chynnal yn unol â chanllawiau Cymru o bosibl. Nododd rhai aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw bod prinder peiriannau monitro CO2 yn y gymuned.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cyflenwadau a chyfarpar meddygol hanfodol bob amser ar gael i'r staff ac y caiff system fwy cadarn ei rhoi ar waith ar gyfer monitro ac olrhain cyfarpar.**

Gwelsom fod y troli brys, i'w ddefnyddio mewn argyfwng yn ymwneud â chlaf, yn drefnus ac yn cynnwys yr holl gyfarpar priodol, gan gynnwys diffibriliwr. Gwelsom fod gwiriadau cynnal a chadw yn cael eu cynnal ar y cyfarpar hwn. Roedd y cyffuriau brys hefyd yn cael eu storio ar y troli dadebru brys.

Gwelwyd cyfarpar gwagio mewn argyfwng yn yr ystafell pwll geni, y gellid ei ddefnyddio pe bai cymhlethdodau yn codi yn ystod genedigaeth ddŵr. Rhoddwyd sicrwydd i ni hefyd fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant priodol ar sut i'w ddefnyddio mewn argyfwng.

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom nad oedd y gwiriadau dyddiol ar y dadebrwr ger y ward ôl-enedigol wedi'u harchwilio'n gyson am ddiffygion nac wedi'u cofnodi yn unol â'r polisi. Gwnaethom nodi nad oedd yr archwiliadau wedi'u cwblhau ar chwe diwrnod ym mis Mai 2023.

**Ymdriniwyd â'r mater mewn perthynas â gwirio cyfarpar brys o dan broses sicrwydd ar unwaith AGIC a chyfeirir ato yn [Atodiad B](#) o'r adroddiad hwn.**

### **Rheoli Meddyginiaethau**

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer storio a rhoi meddyginiaethau yn ddiogel, gan gynnwys cyffuriau a reolir. Roedd y meddyginiaethau'n cael eu storio mewn system ddiogel yr oedd angen ôl bys i gael gafael arnynt. Gwelsom dystiolaeth fod gwiriadau yn cael eu cynnal o dymheredd yr oergelloedd meddyginiaeth er mwyn gwneud yn siŵr bod meddyginiaethau yn cael eu storio ar y tymheredd a argymhellwyd gan y gwneuthurwr. Gwnaethom nodi fod y rhestr wirio ar gyfer yr oergell feddyginiaeth yn y Ganolfan Eni yn cynnwys cofnod o'i thymhereddau ar gyfer mis Mehefin, ond nid oedd dau o'r chwe dyddiad a wiriwyd yn cynnwys llofnod.

Ymdriniwyd â'r mater hwn mewn perthynas â'r oergell feddyginiaeth a gwirio cyfarpar o dan broses sicrwydd ar unwaith AGIC a chyfeirir ato yn [Atodiad B](#) o'r adroddiad hwn.

Drwy drafod â'r staff ac edrych ar sampl o gofnodion cleifion, gwnaethom nodi fod meddyginiaeth yn cael ei rhagnodi a'i rhoi yn unol â pholisi'r bwrdd iechyd yn ystod y cyfnod esgor. Gwelsom siartiau rhagnodi a oedd wedi cael eu cwblhau'n llawn a'u gwirio yng nghofnodion y cleifion y gwnaethom eu hadolygu.

Mae cymorth fferyllol ar gael i'r uned 24 awr y dydd ac mae system gyfrifiadurol y tu allan i oriau yn galluogi'r staff i gadarnhau cyflenwadau cyffuriau ar draws yr ysbyty er mwyn sicrhau nad oes unrhyw oedi cyn rhoi meddyginiaeth i gleifion.

Cadarnhaodd y cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn teimlo iddynt gael eu cefnogi yn ystod yr enedigaeth (41/43) a'u bod wedi cael digon o gyffuriau lleddfu poen i ymdopi â'r boen yn ystod yr enedigaeth (37/43).

## Effeithiol

### Gofal Effeithiol

Gwnaethom adolygu tystiolaeth o weithgarwch archwilio, gan gynnwys atal a rheoli heintiau a hylendid dwylo a oedd yn cael ei gynnal yn rheolaidd. Gwelsom fod camau gweithredu wedi cael eu cymryd, eu holrhain a'u monitro o ganlyniad i'r archwiliadau a gwblhawyd. Nodwyd gennym fod system archwilio newydd ar waith ond nad oedd wedi'i sefydlu hyd yma.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y prosesau archwilio o fewn y system newydd yn strwythuredig ac yn effeithiol a'u bod yn cael eu holrhain a'u monitro er mwyn ysgogi gwelliannau.**

### Maeth a hydradu

Gwelsom ginio yn cael ei weini ac roedd y bwyd i'w weld yn flacus ac wedi'i weini ar unwaith. Dywedodd y cleifion wrthym fod dewis da o fwyd. Roedd y broses o drefnu a chydlynu'r amseroedd bwyd yn effeithlon. Roedd troli te, dŵr a ffrwythau ar gael yn hawdd bob amser ac roedd cegin ar gael ar gyfer y cleifion.

Roedd gofynion maeth a hylif y cleifion wedi'u dogfennu'n dda yn y cofnodion gofal cleifion a welsom.

### Cofnodion cleifion

Gwnaethom adolygu naw set o gofnodion cleifion. Roedd safon y cofnodion cleifion yn gymysg. Roedd pedwar o'r cofnodion yn dangos bod y cynllun gofal, y broses o wneud penderfyniadau a rheoli risgiau yn dda a chlir. Gwnaethom adolygu un set o

gofnodion a oedd yn dogfennu argyfwng meddygol a welsom yn ystod yr arolygiad yn gynhwysfawr.

Gwnaethom adolygu rhai cofnodion yr oedd angen eu gwella:

- Nid oedd dau o'r naw set o gofnodion yn drefnus nac mewn trefn gronolegol a gallai hyn achosi anawsterau wrth sicrhau y caiff gofal parhaus diogel ei ddarparu
- Roedd pump set o gofnodion yn dangos bod gofal wedi'i ddarparu ond nid oedd yr aelod o'r staff a roddodd ofal wedi'u llofnodi bob amser
- Roedd dogfennaeth a gwybodaeth ar goll yn siartiau MEOWS dwy set o gofnodion.

Gwnaethom siarad â'r arweinwyr a gadarnhaodd fod cynlluniau ar waith i ddefnyddio porth ar-lein ar gyfer cofnodion mamolaeth ac y bydd hyn yn helpu i gofnodi gofal a thriniaeth yn gyson.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff archwiliadau dogfennaeth rheolaidd eu cynnal ac y caiff gwersi eu dysgu o'r canfyddiadau.**

## Effeithlon

### Effeithlon

Yn dilyn sgysiau gyda'r staff ar bob lefel, clywsom enghreifftiau o arbedion effeithlonrwydd a wnaed er budd y cleifion. Dywedwyd wrthym hefyd y bu adegau pan nad oedd prosesau yn effeithlon a bod atebion yn cael eu ceisio.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cylchdroi i wahanol ardaloedd yn yr adran er mwyn sicrhau lefelau staffio diogel a bod risgiau yn cael eu lliniaru. Dywedwyd wrthym fod gwahanol ardaloedd o'r adran yn cael eu defnyddio'n hyblyg i ateb y galw pan fo angen. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio'r Ganolfan Eni ar gyfer menywod yn y cyfnod esgor sy'n wynebu risg isel pan fo'r ward esgor yn llawn. Dywedwyd wrthym fod meddygon yn cefnogi'r genedigaethau hyn gan ei bod yn agos.

Gwelsom fod rhestrau ar gyfer triniaethau toriadau cesaraidd dewisol yn aml yn dechrau'n hwyr yn rhannol oherwydd oedi logisteg mewn perthynas â chasglu cleifion.

**Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r opsiynau ar gyfer symud y cleifion toriadau cesaraidd i'r bae adfer yn gynt (cyn briffio) er mwyn lleihau'r oedi.**

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Adborth gan Staff

Dosbarthodd AGIC holiadur er mwyn cael barn y staff ar y gwasanaethau mamolaeth sy'n cael eu darparu gan Ysbyty Athrofaol y Faenor a'u profiad o weithio yno. Cafwyd cyfanswm o 65 o ymatebion gan aelodau o'r staff.

Roedd yr ymateb gan y staff yn gymysg mewn sawl maes, megis rheolaeth a chydaddoldeb, ond roedd y meysydd a gafodd ymateb cadarnhaol yn cynnwys gofal cleifion a llywodraethu.

Roedd nifer o'r staff yn fodlon ar ansawdd y gofal a chymorth yr oeddent yn ei roi i gleifion (55/65) ond roedd llai ohonynt ar y cyfan yn teimlo bod y sefydliad yn gefnogol (42/65).

Dim ond nifer bach o'r staff a ymatebodd i arolwg AGIC oedd yn teimlo bod digon o staff er mwyn iddynt allu gwneud eu gwaith yn iawn (14/65). Cafwyd sawl sylw ar faterion yn ymwneud â staffio, gan gynnwys y canlynol:

*“Mae'r staff yn gweithio'n dda o dan bwysau, ond mae'n amhosibl cael egwylion y rhan fwyaf o'r amser oherwydd prinder staff”*

Rhoddodd yr uwch-reolwyr wybod i ni am yr heriau sy'n gysylltiedig â'r broses recriwtio a dywedwyd wrthym am y mentrau sydd ar waith i gefnogi'r broses recriwtio, patrymau gweithio hyblyg a chadw staff.

**Dylai'r bwrdd iechyd barhau i ganolbwyntio ar recriwtio a chadw staff er mwyn llenwi'r swyddi gwag ar bob lefel, gan leihau'r risg i gleifion a gwella profiadau a chanlyniadau cleifion.**

Gwnaethom siarad â nifer o staff ar bob lefel yn ystod yr arolygiad a gwnaethant rannu'r angen am ystafell staff neu ofod dynodedig a phriodol yn y gweithle er mwyn iddynt allu treulio eu hegwylion a bwyta eu prydau yno. Dywedodd rhai wrthym hefyd nad oedd digon o ddesgiau dynodedig ar gael ar yr uned ar gyfer pob aelod o'r staff.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu a gwella'r gofod sydd ar gael i'r staff ar gyfer cael seibiant o'r ardal glinigol.**

Roedd sylwadau'r staff yn cynnwys y canlynol:

*“Mae Gwasanaethau Mamolaeth BIPAB yn lle gwyh i weithio ynddo. Mae'r darpariaethau yn arbennig ac mae defnyddwyr y gwasanaeth wrth eu*

*boddau ag amgylchedd yr ystafell sengl gyda'r cyfleusterau en-suite. Rwy'n teimlo fy mod yn cael fy nghefnogi'n dda gan fy rheolwr llinell”*

*“Mae diffyg digon o ddesgiau preifat ac ardaloedd trosglwyddo yn bryder, ac nid yw cael cwpwrdd fel ardal orffwys i'r staff yn ddelfrydol.”*

*“Ni adeiladwyd y ward i gynnwys ystafell staff arni, felly cafodd cwpwrdd stoc bach iawn ei droi'n ystafell “goffi” heb ffenestri/system awyru”*

**Gwnaethom ofyn beth y gellid ei wneud i wella'r gwasanaeth. Roedd y sylwadau yn cynnwys y canlynol:**

*“Disgwylir i ni gwblhau ein hyfforddiant yn ein hamser ein hun ar brydiau”*

*“Nid yw dyluniad yr uned gyfan yn ddelfrydol. Nid oes digon o welyau ers yr uno”*

## **Arweinyddiaeth**

### **Llywodraethu ac Arweinyddiaeth**

Gwelsom fod strwythur rheoli clir ar waith gyda llinellau adrodd ac atebolrwydd clir. Gwelsom lawer o enghreifftiau o drefniadau gweithio amlddisgyblaethol effeithiol ac effeithlon heb hierarchaeth yn ystod ein cyfnod ar yr uned. Dywedodd llawer o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad eu bod yn teimlo eu bod yn gallu mynd at eu rheolwyr a'i bod yn hawdd mynd at yr uwch-arweinwyr, eu bod yn gyfeillgar ac yn garedig.

Nododd ein harolwg fod llawer o'r staff o'r farn eu bod yn gallu dibynnu ar eu rheolwr uniongyrchol i'w helpu gyda thasgau anodd (47/65) ond roedd llai o'r staff yn teimlo bod eu rheolwr uniongyrchol yn gofyn am eu barn cyn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu gwaith (27/65).

Roedd oddeutu hanner y staff o'r farn bod yr uwch-reolwyr yn weledig (37/65) ond roedd llai o'r ymatebwyr yn teimlo bod yr uwch-reolwyr a'r staff yn cyfathrebu'n effeithiol (21/65).

Gwnaethom siarad ag obstetregwyr a bydwagedd ar bob lefel yn ystod yr arolygiad, a nododd pob un brofiad cadarnhaol o weithio yn Ysbyty Athrofaol y Faenor. Gwnaethant nodi eu bod yn cyfathrebu'n effeithiol â'r uwch-dîm arwain ac o'r farn bod y cydberthnasau gwaith yn gadarnhaol.

## **Y Gweithlu**

## **Gweithlu Medrus a Galluog**

Gwnaethom gyfarfod â thîm ymrwymedig a phroffesiynol a oedd yn canolbwyntio ar ddarparu gofal cleifion diogel ac effeithiol. Gwelsom dystiolaeth bod 80% o'r staff wedi cael arfarniad neu adolygiad yn ystod y 12 mis diwethaf ac roedd hyn yn gyson ag ymatebion y staff i arolwg AGIC.

Er ein bod wedi gweld tystiolaeth i ddangos bod lefelau hyfforddiant gorfodol yn gwella, gwnaethom nodi, yn ystod yr arolygiad, bod lefelau hyfforddiant cardiocograffeg (CTG) gorfodol yn isel, sef 52% a bod lefelau cydymffurfiaeth â hyfforddiant Gap a Grow (asesiad tyfiant ffetws) hefyd yn isel, sef 49%.

Felly, ni chawsom sicrwydd fod pob aelod o'r staff wedi cael yr hyfforddiant cyfredol perthnasol na'u bod yn meddu ar y sgiliau cyfredol perthnasol i roi gofal a thriniaethau diogel i bob menyw a babi yn eu gofal.

**Ymdriniwyd â'r mater hwn mewn perthynas â hyfforddiant gorfodol o dan broses sicrwydd ar unwaith AGIC a chyfeirir ato yn Atodiad B o'r adroddiad hwn.**

Gwelsom dystiolaeth fod cyfleoedd hyfforddiant a datblygiad yn cael eu cynnig i bob aelod o'r staff ar bob lefel. Roedd hyn yn cynnwys cyfleoedd hyfforddiant newydd ac arloesol.

Roedd llawer o'r staff a ymatebodd i holiadur AGIC o'r farn eu bod wedi cael hyfforddiant priodol i gyflawni eu rôl (46/65).

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom dystiolaeth bod sawl menter ar waith i wella profiad y claf neu effeithlonrwydd a oedd wedi cael eu harwain gan aelodau o'r tîm a'u gweithredu ym mhob rhan o'r uned.

Gwnaethom nodi ei bod yn anodd dehongli'r system a ddefnyddir i fonitro lefelau cydymffurfiaeth â hyfforddiant a dywedwyd wrthym fod system newydd yn cael ei rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod lefelau cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol yn cael eu holrhain, eu bod yn gyfredol ac ar gael yn hawdd i'r staff a'r arweinwyr.

**Dylai'r bwrdd iechyd weithredu neu wella'r system / matrices ar gyfer olrhain hyfforddiant y staff.**

## **Diwylliant**

### **Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu**

Gwelsom fod blwch sylwadau ar gael ar y rhan fwyaf o'r wardiau yn ogystal â gwybodaeth am Gweithio i Wella ar gyfer y rhai hynny a oedd yn dymuno rhoi sylw ar eu profiadau yn yr adran. Gwnaethom siarad â'r fydwraig profiad y claf a

gadarnhaodd bod prosesau cynhwysfawr ar waith i gasglu, monitro, rhannu a dysgu gwersi o gwynion ac adborth. Gwnaethom edrych ar dystiolaeth o adborth cadarnhaol a negyddol ac adolygu'r gwersi a ddysgwyd o ganlyniad i'r adborth hynny.

Gwnaethom edrych ar wybodaeth gan grŵp profiad y claf, sef BABI, a oedd yn nodi bod lleisiau a phrofiadau'r cleifion yn cael eu defnyddio i lywio gwasanaethau.

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn cael eu hannog i roi adborth a mynegi unrhyw bryderon. Roedd y prosesau a'r cyfrifoldebau yn glir ac yn effeithiol. Cadarnhaodd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw sut i roi gwybod am bryderon neu ddigwyddiadau ac ni nododd yr un aelod o'r staff eu bod wedi dod ar draws rhwystrau. Cafwyd cadarnhad bod arferion da yn ogystal â gwelliannau yn cael eu rhannu â'r staff priodol yn dilyn unrhyw ymchwiliadau.

Caiff adborth gan gleifion ei rannu â'r staff yn rheolaidd hefyd.

Clywsom nifer o enghreifftiau gan y staff a'r arweinwyr lle y bu i welliannau gael eu hargymell, eu derbyn a'u rhoi ar waith ym mhob rhan o'r uned. **Roedd yr argymhelliad gan fydwraig i sefydlu "desg groeso" ar y ward i groesawu cleifion i'r adran yn enghraifft o arfer da. Nid oedd derbynfa ar gael cyn hynny. Roedd hyn yn sicrhau bod cleifion a theuluoedd yn teimlo eu bod yn cael eu croesawu.**

## Gwybodaeth

### Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol

Ystyriodd y tîm arolygu y trefniadau ar gyfer cynnal cyfrinachedd cleifion a chydymffurfio â gofynion Llywodraethu Gwybodaeth a Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2018 (GDPR) yn yr uned.

Ar noson gyntaf yr arolygiad, gwelsom ddwy set o nodiadau cleifion a oedd wedi'u gadael heb oruchwyliaeth yn yr ardal ôl-enedigol. Ar 7 Mehefin, gwnaethom dynnu rhestr o doriadau cesaraidd dewisol o'r bin gwastraff cyffredinol yn ystafell weithio'r meddygon.

Ni chawsom sicrwydd fod y staff yn cydymffurfio â threfniadau cyfrinachedd cleifion a bod gwybodaeth am gleifion yn cael ei storio a'i gwaredu yn unol â gofynion GDPR.

Ymdriniwyd â'r mater hwn o dan broses sicrwydd ar unwaith AGIC a chyfeirir ato yn [Atodiad B](#) o'r adroddiad hwn.

Dywedwyd wrthym fod gan bob aelod o'r staff ei fanylion mewngofnodi ei hun i'r cyfrifiaduron er mwyn helpu i gynnal prosesau llywodraethu gwybodaeth.

## Dysgu, gwella ac ymchwil

### **Gweithgareddau gwella ansawdd**

Cadarnhaodd yr arweinwyr fod nifer o weithgareddau gwella ansawdd wedi cael eu cynnal. Cadarnhaodd y fydwraig ymgynghorol ei bod yn ymgysylltu'n effeithiol â phrosiectau ymchwil. Dywedodd yr uwch-arweinwyr wrthym am gynlluniau i wella gwasanaethau ymhellach, gan gwmpasu cyfleoedd a chymorth ar gyfer ystod o fentrau.

## **Dull systemau cyfan**

### **Gweithio mewn partneriaeth a datblygu**

Gwelsom dystiolaeth bod y gwasanaeth yn gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol, o fewn yr ysbyty a'r bwrdd iechyd a gydag asiantaethau allanol. Cadarnhaodd y staff eu bod wedi wynebu rhai heriau ac oedi o ran trefniadau gweithio mewn partneriaeth yn ystod pandemig COVID-19, ond eu bod bellach yn llacio.



## 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

# Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn			

## Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Uned Famolaeth, Ysbyty Athrofaol y Faenor

Dyddiad yr arolygiad: 6 - 8 Mehefin 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p><b>Gwiriio cyfarpar dadebru</b></p> <p>Ar 6 Mehefin 2023, nododd AGIC nad oedd gwiriadau dyddiol ar ddadebrwr a oedd yn cael ei ddefnyddio ar yr uned famolaeth ar B3 (rhwyng yr ardaloedd porffor a melyn) wedi'u cofnodi yn ddyddiol. Ni chafodd AGIC sicrwydd fod gwiriadau dyddiol yn cael eu cynnal ar bob darn o gyfarpar i nodi diffygion ar gyfarpar y gallai fod ei angen mewn argyfwng.</p>	<p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) am y camau a gymerwyd i sicrhau bod yr holl gyfarpar yn ddiogel i'w ddefnyddio, yn gweithio'n effeithiol ac yn cael ei archwilio'n ddyddiol.</p>	<p>1) Bydd archwiliadau'r oergelloedd yn cael eu llofnodi a'u dyddio'n ddyddiol gan y fydwraig/Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd a'u cydlofnodi gan yr Uwch-fydwraig ar ddiwedd pob wythnos waith er mwyn sicrhau bod cydymffurfiaeth yn cael ei gynnal.</p> <p>2) Atgoffwyd pob aelod o'r staff mamolaeth, dros e-bost, o bwysigrwydd cynnal archwiliadau o'r tymereddau yn ddyddiol.</p>	<p>Uwch-reolwr Bydwreigiaeth</p>	<p>Ar unwaith - cam gweithredu wedi'i gwblhau</p>

## Storio meddyginiaeth

Nododd AGIC nad oedd y gwiriadau dyddiol o dymheredd yr oergell ar gyfer yr oergell feddyginiaeth a oedd yn cael ei defnyddio yn y Ganolfan Eni wedi'u cofnodi bob amser. Gwelsom nad oedd y gwiriadau ar gyfer dau o chwe diwrnod wedi'u cofnodi'n gyson ym mis Mehefin 2023.

Mae Mater 4.1 Cod Ymddygiad Polisi Rheoli Meddyginiaethau a ddarparwyd i AGIC yn cyfeirio at oergelloedd meddyginiaethau. Mae'r cod yn nodi (12.2) bod yn rhaid monitro a chofnodi tymereddau oergelloedd meddyginiaethau bob dydd.

Ni chafodd AGIC sicrwydd fod tymereddau pob un o'r

3) Mae'r gofyniad i gynnal a chofnodi archwiliadau cyfarpar dyddiol o'r cyfarpar dadebru a'r cyfarpar brys wedi'i atgyfnerthu ymysg y staff bydwreigiaeth ym mhob rhan o'r Is-adran dros e-bost.

4) Yn ogystal â'r archwiliadau a'r llofnod dyddiol, bydd y taflenni cofnodi yn cael eu cyd-lofnodi gan yr Uwch-reolwr Bydwreigiaeth yn wythnosol.

5) Bydd pwysigrwydd gwirio tymereddau oergelloedd a chynnal gwiriadau ar y cyfarpar dadebru a'r cyfarpar brys yn cael ei atgyfnerthu yn ystod Cyfarfod nesaf Tîm y Ward ar 15 Mehefin 2023 ac yn ystod sesiynau goruchwyllo clinigol.

6) Bydd hapwiriadau yn cael eu cynnal gan y Tîm Arwain a Rheoli Is-adrannol yn

<p>oergelloedd meddyginiaethau ar yr uned famolaeth yn cael eu monitro'n barhaus i gadarnhau a dangos bod meddyginiaethau yn cael eu storio ar dymheredd priodol yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr. Mae hyn yn peri risg bosibl i ddiogelwch a llesiant cleifion y byddant o bosibl yn cael meddyginiaethau nad ydynt wedi cael eu storio'n briodol ac felly na fyddant o bosibl mor effeithiol wrth eu trin.</p>		<p>rheolaidd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r gofynion gwirio dyddiol ar gyfer tymereddau oergelloedd a chyfarpar dadebru a chyfarpar brys.</p>		
<p><b>Atal a rheoli heintiau</b></p> <p>Ar 6 Mehefin 2023, gwelsom fod staeniau gwaed ar rai o'r dodrefn a'r ffitiadau mewn dwy ystafell eni wag. Roedd y staeniau gwaed ar waelod y gwely, llinyn y golau a'r troli yn un o'r ystafelloedd. Yn yr ystafell arall, roedd y staeniau gwaed i'w gweld ar y cot. Roedd y labeli â dyddiadau</p>	<p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i hyrwyddo trefniadau effeithiol ar gyfer atal a rheoli heintiau a dihalogi.</p>	<p>7) Bydd safonau glanhau yn cael eu cynnal ym mhob rhan o'r adran, gan gynnwys ardaloedd clinigol ac anghlinigol.</p> <p>8) Atgoffwyd pob aelod o'r staff o bwysigrwydd sicrhau y caiff safonau a phrosesau ar gyfer trefniadau glanhau effeithiol eu cynnal a'u bod yn cydymffurfio â'r safonau atal a</p>	<p>Pennaeth Bydwreigiaeth</p>	<p>Ar unwaith - cam gweithredu wedi'i gwblhau</p>

arnynt yn nodi bod yr ystafelloedd hyn wedi cael eu glanhau, ond nid oedd y broses lanhau yn ddigonol o ystyried y gwaed amlwg a welsom.

Ni chafodd AGIC sicrwydd fod prosesau effeithiol ar waith nac yn cael eu dilyn i atal heintiau a ddelir wrth gael gofal iechyd.

rheoli heintiau. Mae copïau o drefniadau glanhau i'w gweld yn yr ystafelloedd glanhau a chânt eu harchwilio'n fisol drwy symbiotigau.

9) Bydd pwysigrwydd safonau glanhau yn cael ei atgyfnerthu yn ystod Cyfarfod nesaf Tîm y Ward ar 15 Mehefin 2023 ac yn ystod sesiynau goruchwyllo clinigol.

10) Mae rhaglen dihalogi anwedd hydrogen perocsid (HPV) ar gyfer glanhau gwelyau wedi'i chynhyrchu ar sail cylchdro gan y tîm cyfleusterau. Bydd y rhaglen yn dechrau ddydd Llun 19 Mehefin.

11) Mae cymorth ychwanegol wedi'i roi ar waith ar unwaith ar gyfer y glanhau, gyda chymorth gan y tîm cyfleusterau, er mwyn codi

		<p>safonau. Dechreuwyd 9 Mehefin 2023.</p> <p>12) Caiff pob ystafell ei glanhau'n ddyddiol ac mae'r cofnodion yn cael eu cynnal i ddangos cydymffurfiaeth. Mae sticer yn cael ei osod ar y drysau i ddynodi bod yr ystafelloedd wedi cael eu glanhau'n drylwyr.</p> <p>13) Atgyfnerthwyd dull ar y cyd o weithredu rhwng y Tîm Arwain Is-adrannol, tîm Atal a Rheoli Heintiau a'r Is-adran Cyfleusterau er mwyn sicrhau bod safonau glendid yn cael eu cynnal a'u monitro'n gyson drwy archwiliadau glanhau.</p>		
<p><b>Cofnodion cleifion</b></p> <p><b>Ar 8 Mehefin 2023, gwelsom restr triniaethau toriadau cesaraidd dewisol yn y bin gwastraff domestig yn ystafell weithio'r Meddygon a oedd yn</b></p>	<p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i roi sicrwydd bod dogfennaeth yn cael ei storio'n unol â'r GDPR.</p>	<p>14) Mae'r gyfradd gydymffurfio â Hyfforddiant Gorfodol ar Lywodraethu Gwybodaeth yn 73.99% fel y cofnodir ar y Cofnodion Staff Electronig. Bydd y gyfradd hon yn cael ei hadolygu'n</p>	<p>Rheolwr Cynorthwyol y Gwasanaeth</p>	<p>Ar unwaith - cam gweithredu wedi'i gwblhau</p>

cynnwys gwybodaeth bersonol y cleifion.

Ar 6 a 7 Mehefin 2023, gwelsom gofnodion cleifion a oedd wedi cael eu gadael heb oruchwyliaeth yn ardal ôl-enedigol yr uned.

Ni chafodd AGIC sicrwydd fod gwybodaeth gyfrinachol am gleifion yn cael ei defnyddio, ei storio a'i gwaredu'n unol â'r GDPR.

rheolaidd er mwyn sicrhau gwell cydymffurfiaeth.

15) Bydd biniau gwastraff cyfrinachol diogel gyda chloeon yn cael eu gosod yn lle'r bagiau gwastraff cyfrinachol presennol. Archebwyd 15 ohonynt a byddant yn cael eu gosod ym mhob ardal glinigol ac ym mhob swyddfa.

16) Atgoffwyd pob aelod o staff yn ffurfiol drwy e-byst o'u cyfrifoldebau llywodraethu gwybodaeth ac o'r broses o storio gwybodaeth am gleifion yn gywir ac yn ddiogel.

17) Bydd cyfrifoldebau llywodraethu gwybodaeth ar gyfer pob aelod o'r staff yn cael eu cynnwys fel eitem ar yr agenda mewn cyfarfodydd tîm yn y dyfodol ac yn y cyfarfod llywodraethu clinigol ddydd Gwener 16 Mehefin.

Rheolwr  
Cynorthwyol y  
Gwasanaeth

Archebwyd 13  
Mehefin 2023

Rheolwr  
Cynorthwyol y  
Gwasanaeth

9 Mehefin  
2023

Rheolwr  
Cynorthwyol y  
Gwasanaeth

16 Mehefin  
2023



		<p>18) Mae hysbysiad Llywodraethu Gwybodaeth wedi cael ei gyflwyno ar fewnrwyd yr ysbyty er mwyn atgyfnerthu pwysigrwydd cynnal ac amddiffyn gwybodaeth am gleifion, mynediad i gofnodion a diogelwch gwastraff cyfrinachol. Rhannwyd yr e-bost hwn â phob aelod o'n staff meddygol ac yn ystod cyfarfod Llywodraethu Clinigol lle y ceir ymgysylltiad amlddisgyblaethol.</p> <p>19) Mae'r trolïau nodiadau wedi cael eu symud a bydd pob un o'r nodiadau am gleifion yn cael eu cadw yn yr ystafell gyda'r menywod neu'r unigolyn sy'n rhoi genedigaeth.</p>	<p>Pennaeth Llywodraethu Gwybodaeth</p> <p>Uwch-reolwr Bydwreigiaeth</p>	<p>13 Mehefin 2023</p> <p>13 Mehefin 2023</p>
Cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol	Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd i sicrhau y caiff	20) Cynhelir asesiad ffisioleg/gwylidwriaeth ffetysol dwywaith y flwyddyn	Pennaeth Bydwreigiaeth	Gorffennaf 2023

Nid oedd yr hyfforddiant gorfodol hanfodol yn cyrraedd y safonau gofynnol.

- Roedd graddfa gydymffurfiaeth â hyfforddiant Cardiotocograffeg (CTG) yn isel, sef 52%
- Roedd lefelau cydymffurfiaeth â hyfforddiant Gap and Grow - asesiad tyfiant ffetws hefyd yn isel, sef 49%.

Felly, ni chawsom sicrwydd fod pob aelod o'r staff wedi cael yr hyfforddiant cyfredol perthnasol na'u bod yn meddu ar y sgiliau cyfredol perthnasol i roi gofal a thriniaethau diogel i bob menyw a babi yn eu gofal.

hyfforddiant gorfodol ei gwblhau mewn modd amserol ac yn unol â'r lefelau cydymffurfiaeth a argymhellir gan y bwrdd iechyd er mwyn sicrhau diogelwch cleifion.

fel rheol. Mae un sesiwn wedi cael ei chynnal eleni. Bydd sesiwn arall yn cael ei hwyluso ym mis Medi 2023. Dyma'r cyfle cynharaf posibl oherwydd argaeledd siaradwyr/arbenigwyr priodol.

21) Bydd asesiad o oriau Gwylidwriaeth Ffetysol y fydwraig arweiniol yn cael ei gynnal er mwyn adolygu'r cyfle i gynyddu'r oriau gwaith.

22) Bydd hyfforddiant GAP a GROW yn cael ei wneud yn orfodol o fis Medi 2023 ymlaen.

23) Cysylltwyd â'r Sefydliad Amenedigol ar 6.5.23 ac mae pum lle ychwanegol ar gael ar gyfer hyfforddiant Gap a Grow NGUS yn y *National GAP User Symposium* ar gyfer dydd Gwener 15 Medi.

24) Bydd data hyfforddiant yn cael eu cysoni ymhellach er

Pennaeth  
Bydwreigiaeth

Pennaeth  
Bydwreigiaeth

Pennaeth  
Bydwreigiaeth

Gorffennaf  
2023

Medi 2023

Wedi holi am  
ddatganiadau  
o ddiddordeb  
ar 9 Mehefin  
2023

Ar unwaith -  
cam

mwyn sicrhau bod pob cydymffurfiaeth wedi'i dderbyn a'i gofnodi ar y gronfa ddata a fydd yn llywio gofynion hyfforddiant yn y dyfodol.

25) Y Fydwraig Arweiniol i adolygu'r gronfa ddata bresennol a gweithredu system fwy rhyngweithiol, gweledol a chywir sy'n cynrychioli hyfforddiant y staff. Mae'r gronfa ddata yn cael ei datblygu ar hyn o bryd ac yn cynnwys swyddogaeth ychwanegol i roi gwybod i'r staff bod dyddiad eu hyfforddiant yn dod i ben.

26) Bydd y broses o ddatblygu'r gronfa ddata newydd hon yn cael ei hadolygu yng nghyfarfod nesaf y Tîm Uwch-reolwyr ar 20 Mehefin 2023.

Uwch-reolwr  
Bydwreigiaeth

Bydwraig  
Arweiniol Ddigidol

Bydwraig  
Arweiniol Ddigidol

gweithredu  
wedi'i gwblhau

Medi 2023

20 Mehefin  
2023

27) Mae pob aelod o'r staff wedi cael e-bost am gydymffurfiaeth staff â hyfforddiant a gofynnwyd iddynt ddarparu tystiolaeth erbyn diwedd mis Mehefin 2023.

Rheolwr  
Cynorthwyol y  
Gwasanaeth

Anfonwyd 9  
Mehefin 2023

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

#### **Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (priflythrennau):** Jayne Beasley  
**Teitl swydd:** Pennaeth Bydwreigiaeth  
**Dyddiad:** 13 Mehefin 2023

# Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Uned Famolaeth, Ysbyty Athrofaol y Faenor


Dyddiad yr arolygiad: 6 Mehefin 8

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p><b>Argaeledd Pyllau geni cyfyngedig</b></p> <p>Un pwll geni yn unig sydd ar gael ar gyfer yr uned famolaeth. Mae hyn yn cyfyngu ar ddewis y bobl a allai fod yn awyddus i ddefnyddio dŵr yn ystod y cyfnod esgor</p>	<p>Adolygu ac ystyried cynyddu nifer y pyllau geni sydd ar gael yn yr uned</p>	<p>Cydgysylltu â'r tîm cyfleusterau a gofyn am ddyfynbris ar gyfer symud y pwll o ysbyty arall er mwyn cefnogi'r capasiti ychwanegol yn Ysbyty Athrofaol y Faenor i ateb y galw.</p>	<p>Rheolwr Cynorthwyol y Gwasanaeth</p>	<p>Chwe wythnos ar gyfer costau - os caiff y cais ei gymeradwyo.</p> <p>Codwyd y mater fel Mân Waith ar 28.07.2023</p>
<p><b>Amseroedd ymweld</b></p> <p>Dywedodd oddeutu hanner ymatebwyr arolwg cleifion AGIC wrthym eu bod yn teimlo</p>	<p>Adolygu'r trefniadau ymweld a chyfleu'r amseroedd yn effeithiol i'r teuluoedd cyn iddynt gael eu derbyn i'r uned</p>	<p>Mae amseroedd ymweld ychwanegol wedi cael eu cyflwyno er mwyn caniatáu i aelodau ychwanegol o'r teulu ymweld â'r ward.</p>	<p>Uwch-dîm Rheoli</p>	<p>Cwblhawyd - poster ymweld wedi'i ddiweddarau</p>

<p>nad oedd yr amseroedd ymweld yn ddigonol</p>		<p>Mae gwybodaeth wedi cael ei rhaedru ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol ac i'w gweld ym mhob ardal glinigol hefyd.</p>		
<p><b>Capasiti - gwelyau ôl-enedigol</b></p> <p>Dyweddodd sawl aelod o'r staff wrthym am yr heriau o ran capasiti cyfyngedig y gwelyau ôl-enedigol sy'n cael effaith negyddol ar lif cleifion</p>	<p>Dylai'r bwrdd iechyd adolygu niferoedd y gwelyau ôl-enedigol a lliniaru unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â phrinder gwelyau er mwyn sicrhau y caiff gofal cleifion diogel ac effeithiol ei gynnal.</p>	<p>Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda'r tîm gwasanaethau babanod newyddenedigol er mwyn cyflwyno system e-ryddhau babanod o'r ysbyty. Bydd hyn yn cyflymu'r broses rhyddhau cleifion o'r ysbyty ac yn gwella llif cleifion.</p>	<p>Bydwagedd Arweiniol</p> <p>Y Ward Ôl-enedigol</p>	<p>Wedi'i weithredu'n llawn erbyn 16 Medi 2023</p>
		<p>Mae'r Bwrdd Iechyd yn rhoi dull gwahanol ar waith ar gyfer Triniaethau Toriadau Cesaraid Dewisol fel rhaglen beilot.</p>		<p>25 Gorffennaf 2023</p>

		Bydd bydwraig yn cael ei dyrannu ar y rhestr staff i gynnal gwiriadau Archwiliadau Corfforol ar Fabanod ac Archwiliadau Babanod Newyddenedigol er mwyn gwella llif cleifion. Bydd hyn yn dechrau ym mis Awst		4 Awst 2023
<b>Gwasanaeth profedigaeth</b> Nododd sgysiau â'r staff nad oedd arweinydd meddygol dynodedig yn y gwasanaeth hwn a bod y capasiti yn gyfyngedig	Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r gwasanaethau profedigaeth i feincnodi ei wasanaethau a'i gapasiti yn erbyn unedau mamolaeth tebyg	Nododd adolygiad ledled Cymru mai dim ond un bwrdd iechyd sydd ag arweinydd Obstetreg dynodedig sy'n cefnogi'r ddarpariaeth hon.  Mae Bydwraig profedigaeth ddynodedig Band 7 sy'n gweithio'n llawn amser yn y Bwrdd Iechyd i gefnogi teuluoedd sydd wedi colli babi.	Pennaeth Bydwreigiaeth  Cyfarwyddwr Clinigol	Cwblhawyd
<b>Aelodau penodol o staff ar y shift</b>	Dylai'r bwrdd iechyd roi system ar waith er mwyn sicrhau bod cleifion yn ymwybodol o bwy yw'r staff	Bydd hysbysfwrdd arweinyddiaeth i'w weld ger mynedfa pob ward.	Uwch-dîm Rheoli  Uwch-fydwragedd	Diwedd Awst 2023.

<p>Prin oedd y wybodaeth a welwyd ar gyfer y cleifion a oedd yn nodi pwy oedd yn gofalu amdanynt</p>	<p>sydd ar y shifft a'r tîm arwain yn yr adran</p>	<p>Bydd y bydwagedd sy'n darparu gofal i'r menywod yn ysgrifennu eu henwau ar yr hysbysfwrdd yn ystafelloedd y menywod a'r unigolion sy'n rhoi genedigaeth.</p> <p>Mae pob aelod o'r staff yn gwisgo bathodyn enw.</p>		
<p><b>Drysau tân i'r ardal storio</b></p> <p>Gwnaethom nodi nad oedd drysau tân yr ardaloedd storio yn cael eu cau'n rheolaidd ac y gallant beri risg i'r rhai ar yr uned</p>	<p>Rhoi mesurau ar waith er mwyn sicrhau y caiff pob drws tân sy'n arwain at gypyrddau glanhau eu cau</p>	<p>Atgoffwyd y staff o bwysigrwydd sicrhau y caiff drysau tân a chypyrddau glanhau eu cau bob amser</p> <p>Bydd yr uwch dîm yn cynnal hapwiriadau.</p>	<p>Pob aelod o'r staff</p>	<p>Rhannwyd yr e-bost ar 24.07.2023 a rhoddwyd hysbysiad ar y drysau sydd angen eu cadw ar gau</p> <p> Door Closed.pdf</p>
<p><b>Swyddogaethau'r bydwagedd arbenigol</b></p> <p>Roedd ystod eang o swyddogaethau'r bydwagedd arbenigol ar waith (gan gynnwys diogelu, llywodraethu</p>	<p>Adolygu'r broses o gynllunio olyniaeth a chapasiti ar gyfer pob un o rolau'r bydwagedd arbenigol</p>	<p>Mae'r Tîm Uwch-reolwyr yn adolygu'r broses o gynllunio olyniaeth drwy gyflwyno opsiwn rôl arweiniol a rennir. Bydd y cyfle hwn yn galluogi'r staff i gynnal eu sgiliau clinigol a'u helpu i ddatblygu</p>	<p>Uwch-dîm Rheoli</p>	<p>Rhagfyr 2023</p>



<p>clinigol, pryderon, iechyd y cyhoedd, iechyd meddwl). Roedd y swyddogaethau hyn yn aml yn cael eu cwblhau gan unigolion nad oeddent yn cael eu cyflenwi yn ystod cyfnodau o absenoldeb</p>		<p>er mwyn ymgymryd â rolau arweiniol fel rhan o'r broses gynllunio olyniaeth.</p> <p>Bydd y Pennaeth Bydwreigiaeth yn meincnodi hyn â Byrddau Iechyd eraill</p>		
<p><b>Cyfarpar meddygol</b></p> <p>Dyweddod oddeutu hanner y staff a atebodd yr arolwg wrthym nad oeddent yn gallu cael gafael digonol ar gyfarpar meddygol priodol i'w galluogi i ddarparu gofal effeithiol</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cyflenwadau a chyfarpar meddygol hanfodol bob amser ar gael i'r staff ac y caiff system fwy cadarn ei rhoi ar waith ar gyfer monitro ac olrhain cyfarpar</p>	<p>Mae adolygiad o'r cyfarpar meddygol yn yr ardaloedd clinigol wedi'i gynnal ac mae'r cyfarpar angenrheidiol priodol, sef stethosgopau a chyffiau pwysedd gwaed o bob maint wedi cael eu harchebu.</p>	<p>Clercod y Ward</p>	<p>Cwblhawyd - wedi cwblhau'r archebion</p>
<p><b>Systemau archwilio</b></p> <p>Gwelsom dystiolaeth o system newydd ar gyfer archwilio ac olrhain archwiliadau atal a rheoli heintiau. Nid oedd y system wedi cael ei rhoi ar waith</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y prosesau archwilio o fewn y system newydd yn strwythuredig ac yn effeithiol a'u bod yn cael eu holrhain a'u monitro er mwyn ysgogi gwelliannau</p>	<p>Mae proses ddihalogi strwythuredig ar waith yn yr uned a gaiff ei chefnogi gan y tîm cyfleusterau. Bydd y broses yn parhau tan 4 Awst. Wrth symud ymlaen, bydd yr uned yn cael ei chynnwys yn y rhaglen flynyddol.</p>	<p>Uwch-reolwr Bydwreigiaeth</p> <p>Arweinydd Atal a Rheoli Heintiau</p>	<p>Parhaus gyda gwaith monitro rheolaidd</p>

		<p>Mae'r Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd wedi cael hyfforddiant er mwyn sicrhau bod archwiliadau hylendid dwylo yn cael eu cwblhau.</p> <p>Mae'r bydwragedd arweiniol wedi cael sesiynau hyfforddiant ar Reoli a Thracio Archwiliadau (AMAT) er mwyn sicrhau y caiff data o archwiliadau eu casglu, eu holrhain a'u monitro i sicrhau gwelliant dyddiol. Bydd y bydwragedd arweiniol yn rhaedru'r hyfforddiant i'r staff erbyn 14 Awst.</p>		25 Gorffennaf 2023
<p><b>Cofnodion cleifion</b></p> <p>Gwelsom anghysondebau o fewn cofnodion y cleifion mewn perthynas â siartiau a llofnod rhyddhau a'u trefn. Gallai hyn arwain at anawsterau wrth sicrhau y</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff archwiliadau dogfennaeth rheolaidd eu cynnal ac y caiff gwersi eu dysgu o'r canfyddiadau</p>	<p>Caiff archwiliadau o nodiadau eu cynnal gan y Goruchwylwyr Clinigol ar gyfer Bydwragedd bob chwarter er mwyn sicrhau bod y safonau yn cydymffurfio â Chod Ymddygiad y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.</p>	<p>Goruchwylwyr Clinigol ar gyfer Bydwragedd</p> <p>Bydwragedd Arweiniol</p> <p>Pennaeth Bydwreigiaeth</p>	Cwblhawyd

caiff gofal parhaus diogel ei ddarparu		Cynhelir archwiliadau misol drwy'r rhaglen hanfodion gofal.		
<b>Trefniadau triniaethau toriadau Cesaraidd dewisol</b>  Gwnaethom nodi heriau logistaidd mewn perthynas â'r broses o ddechrau'r rhestrau triniaethau toriadau Cesaraidd a all arwain at aneffeithlonrwyddau	Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r opsiynau ar gyfer symud y cleifion toriadau cesaraidd i'r bae adfer yn gynt (cyn briffio) er mwyn lleihau'r oedi	Bydd pob dull gwahanol ar gyfer y rhestrau cesaraidd yn dechrau ddydd Mawrth 25 Gorffennaf ac yn cael eu treialu am gyfnod o bedair wythnos er mwyn gwella llif gwelyau a boddhad cleifion	Bydwagedd Arweiniol	Parhaus - yn dechrau 25 Gorffennaf 2023
<b>Monitro / olrhain cydymffurfiaeth â hyfforddiant</b>	Gwella'r system ar gyfer olrhain hyfforddiant y staff	Mae'r fydwraig arweiniol ddigidol wedi rhoi system fwy rhyngweithiol, gweledol a chywir ar waith yn lle'r gronfa ddata bresennol sy'n cynrychioli hyfforddiant y staff.  Bydd y gronfa ddata newydd yn cael ei chyflwyno ym mis Medi. Dyma ddechrau'r flwyddyn addysgol newydd. Bydd swyddogaeth	Bydwraig Arweiniol Ddigidol	Cwblhawyd  Yn cael ei chyflwyno ym mis Medi 2023

		<p>ychwanegol ar y system i hysbysu'r staff bod angen iddynt ddiweddarau eu cydymffurfiaeth.</p> <p>Hyfforddiant PROMPT i'w ychwanegu at y Cofnodion Staff Electronig er mwyn cofnodi cydymffurfiaeth.</p>		
<p><b>Recriwtio a chadw staff</b></p> <p>Dyweddodd nifer fach o'r staff y gwnaethom siarad â nhw ac a atebodd yr arolwg fod digon o staff ar yr uned i'w galluogi i wneud eu gwaith yn iawn.</p>	<p>Dylai'r bwrdd iechyd barhau i ganolbwyntio ar recriwtio a chadw staff er mwyn llenwi'r swyddi gwag ar bob lefel, gan leihau'r risg i gleifion a gwella profiadau a chanlyniadau cleifion</p>	<p>Mae proses o adolygu'r gweithlu'n fisol wedi'i rhoi ar waith a bydd hyn yn parhau.</p> <p>Fel rhan o'r broses symleiddio, mae Bydwagedd newydd gymhwyso cyfwerth ag amser llawn 24.4 yn dechrau eu swyddi ym mis Hydref 2023.</p> <p>Rydym wedi hysbysebu'r rôl ar gyfer swyddog diabetig arweiniol arbenigol.</p> <p>Mae'r uned famolaeth wedi adolygu'r oriau ar gyfer y rôl gwylidwriaeth ffetysol.</p>	<p>Uwch-reolwyr Bydwreigiaeth</p>	<p>Parhaus gydag adolygiad bob mis</p>

		<p>Bydd un swydd gyfwerth ag amser llawn yn cael ei hysbysebu.</p> <p>Mae'r uned famolaeth yn gweithio gydag uwch-bartner busnes y gweithlu i ddatblygu cynllun strwythuredig ar gyfer y gweithlu.</p>		
<p><b>Ardaloedd ar gyfer y staff</b></p> <p>Roedd yr ardaloedd a oedd ar gael i'r staff (ar bob lefel) gymryd seibiant o'r ardal glinigol ar yr uned yn gyfyngedig. Byddai hyn ar gyfer eu llesiant a / neu i gwblhau gwaith wrth ddesg</p>	<p>Gwella mynediad y staff at ardaloedd lle y gallant gael seibiant o'r ardal glinigol</p>	<p>Mae ystafell seibiant ar gael i'r staff ar C3. Rydym hefyd wedi creu ystafell seibiant fach i'r staff ar B3.</p> <p>Mae ardal llesiant ar gael i'r staff ger y brif uned er mwyn iddynt gymryd seibiant o'r amgylchedd clinigol. Mae'r ardal hon yn olau ac wedi'i hawyru'n dda ac yn cynnwys cadeiriau a byrddau.</p> <p>Mae'r uned famolaeth wrthi'n creu mwy o ardal waith yn swyddfa'r Uwch-fydwragedd. Bydd arwynebau gwaith ychwanegol gyda chysylltiad</p>	<p>Rheolwr Cynorthwyol y Gwasanaeth</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Dyddiad cwblhau disgwyliedig 17 Awst 2023</p>

i'r we a manau pweru er  
mwyn galluogi'r staff i  
weithio'n ystwyth.

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

### **Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (priflythrennau): Jayne Beasley**

**Teitl swydd: Pennaeth Bydwreigiaeth**

**Dyddiad: 26/07/2023**